



## Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 18B – Goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol

---

### Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.
2. Mae'r adroddiad yn argymhell cyflwyno Rheol Sefydlog 18B newydd i sefydlu Pwyllgor y Llywydd, yn unol â Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Deddf 2020). Mae'r newidiadau a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn Atodiad A.

### Cefndir

3. Pasiwyd Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (“Deddf 2020”) gan y Senedd ar 27 Tachwedd 2019 ac fe gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020. Daw'r darpariaethau sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn i rym ar

ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

4. Mae Deddf 2020 yn diwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) i ddarparu ar gyfer sefydlu Pwyllgor y Llywydd er mwyn i'r Comisiwn Etholiadol fod yn atebol i'r Senedd o ran etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig, ac i Bwyllgor y Llywydd gymeradwyo cynlluniau gwariant y Comisiwn Etholiadol.

5. Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Pwyllgor Busnes ddechrau gwaith i weithredu darpariaethau perthnasol Deddf 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020) fel bod y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Senedd am ei weithgareddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig ym mlwyddyn etholiad 2021. Er mwyn i Bwyllgor y Llywydd gyflawni ei rôl ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, rhaid ei sefydlu cyn 1 Hydref 2020.

6. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd osod y gorchymyn i gychwyn darpariaethau perthnasol Deddf 2020, fel y gall Pwyllgor y Llywydd ddechrau arfer ei swyddogaethau. Mae'r Prif Weinidog wedi awgrymu y bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at roi'r darpariaethau ar waith fel bod y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Senedd ar gyfer blwyddyn etholiad 2021.

7. O ystyried natur statudol Pwyllgor y Llywydd, cynigir y dylid darparu'n benodol ar ei gyfer mewn Rheolau Sefydlog.

### **Swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol**

8. Mae'r camau a ganlyn yn ofynnol yn unol â Deddf 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020:

- erbyn 1 Hydref bob blwyddyn, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno amcangyfrif i Bwyllgor y Llywydd o'r incwm a'r gwariant y mae'n disgwyl ei gael/ei wario ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf mewn perthynas â'i waith ar etholiadau Cymru;
- rhaid i Bwyllgor y Llywydd archwilio'r amcangyfrif, o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gwneud

unrhyw newidiadau sy'n briodol yn ei farn gan ystyried adroddiad diweddaraf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a barn Gweinidogion Cymru;

- rhaid i Bwyllgor y Llywydd osod yr amcangyfrif gerbron y Senedd. Yna bydd y Senedd yn cymeradwyo'r amcangyfrif fel rhan o gynnig y gyllideb flynyddol.

9. Mae Deddf 2000 yn caniatáu i'r Comisiwn Etholiadol adolygu amcangyfrif yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Os bydd yn gwneud hyn, bydd angen i Bwyllgor y Llywydd graffu ar yr amcangyfrif diwygiedig yn dilyn y broses a nodir ym mharagraff 7 uchod.

10. Mae'n ofynnol i Bwyllgor y Llywydd gymryd y camau a ganlyn yn unol â Deddf 2000 hefyd:

- rhaid iddo archwilio cynllun gwaith pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol o dro i dro, o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gwneud unrhyw newidiadau sy'n briodol yn ei farn, gan ystyried adroddiad diweddaraf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a barn Gweinidogion Cymru. Mae'r cynllun pum mlynedd yn amlinellu nodau, amcanion ac adnoddau gofynnol y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o ran etholiadau datganoledig;
- ar ôl craffu arno, rhaid iddo roi'r cynllun gerbron y Senedd naill ai gyda diwygiadau neu heb ddiwygiadau;
- caiff y Pwyllgor geisio archwiliad pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru o unrhyw gyfrifon a archwiliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol o'i waith gerbron y Senedd.

11. Mae Deddf 2000 yn darparu ar gyfer cyflwyno cynlluniau pum mlynedd i Bwyllgor y Llywydd:

- pan fydd y Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno'r amcangyfrif cyllidebol cyntaf;

- pan fo'r amcangyfrif yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyntaf i ddechrau ar ôl y diwrnod pan fydd y Senedd yn cyfarfod yn dilyn etholiad cyffredinol arferol y Senedd, neu
- pan fo'r amcangyfrif yn ymwneud â blwyddyn ariannol arall ac mae Pwyllgor y Llywydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno cynllun.

12. Ymdrinnir â'r swyddogaethau hyn yn Rheol Sefydlog 18B.2 arfaethedig newydd, sy'n cyfeirio at y darpariaethau cyfreithiol perthnasol.

### **Y cadeirydd a'r aelodaeth**

13. Fel y darperir yn Neddf 2020, rhaid i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd gadeirio Pwyllgor y Llywydd. Cynigir bod y Rheolau Sefydlog yn cadw'r hyblygrwydd hwn drwy nodi y gellir enwebu'r naill neu'r llall i fod yn gadeirydd.

14. Yn ystod hynt y Ddeddf, cafwyd dadl ynglŷn â pha gorff a ddylai gyflawni'r swyddogaethau perthnasol o ran dwyn y Comisiwn Etholiadol i gyfrif a chytuno ar ei gynlluniau gwariant. Arweiniodd hyn at gonsensws cyffredinol y dylid sefydlu pwyllgor newydd ar sail amhleidiol, yn hytrach na defnyddio un o'r pwyllgorau presennol, er enghraifft y Pwyllgor Cyllid (sy'n adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Senedd).

15. Er mwyn cynnal cysylltiad â'r Pwyllgor Cyllid, o ystyried ei rôl o oruchwylio'r holl faterion sy'n effeithio ar ariannu Cronfa Gyfunol Cymru neu'n ymwneud â gwariant ohoni, cynigir y dylid gwneud cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn aelod ex-officio o'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu y bydd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn cyfrif fel aelod ar wahân i gynrychiolydd unrhyw grŵp gwleidyddol y mae'n perthyn iddo. Mae hyn yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd yn ystod hynt y Ddeddf, gan gynnwys barn gref y Pwyllgor Cyllid y dylai ei gadeirydd fod yn aelod ex-officio, er mwyn cynrychioli barn y Pwyllgor Cyllid.

16. Ysgrifennodd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Pwyllgor Busnes ar 1 Gorffennaf i ofyn am i'r Pwyllgor Cyllid gael ei gynrychioli ar wahân i

gynrychiolydd unrhyw blaid wleidyddol. Yn y llythyr, esboniwyd pe bai cadeirydd y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cynrychioli ei blaid y byddai'n arwain at wrthdaro rhwng ei rôl trawsbleidiol fel cadeirydd a'i rôl o fewn y blaid. Esboniwyd y byddai hyn bob amser yn effeithio'n andwyol ar bleidiau nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth, o gofio na all cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod yn aelod o grŵp gwleidyddol a chanddo rôl weithredol (Rheol Sefydlog 18.13).

17. Yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor Busnes, mynegwyd pryderon ynghylch sefyllfa debyg i'r un bresennol lle y mae'r Llywydd a chadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn perthyn i'r un grŵp, ac felly byddai tri o'r chwech aelod o Bwyllgor y Llywydd yn perthyn i'r un grŵp. Yn sgil hynny, cynigiodd y Llywydd y dylai'r pwyllgor gytuno mewn egwyddor y dylai'r Dirprwy Lywydd gadeirio Pwyllgor y Llywydd o dan amgylchiadau o'r fath. Felly, bydd y Pwyllgor Busnes yn cynnig y Dirprwy Lywydd fel cadeirydd ar gyfer Pwyllgor y Llywydd ar gyfer y Pumed Senedd.

18. Felly, cynigir:

- bod yn rhaid i'r Pwyllgor gynnwys un Aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd;
- ni ystyrir bod y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd, fel cadeirydd y Pwyllgor, yn cynrychioli grŵp gwleidyddol ar y Pwyllgor gan fod y Llywydd yn parhau i fod yn ddiduedd yn ei rôl (yn unol â Rheol Sefydlog 6.19);
- dim ond wrth arfer pleidlais fwrw y caiff cadeirydd y Pwyllgor bleidleisio; a
- bydd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn aelod ex-officio o'r Pwyllgor ac ni fydd yn cyfrif fel Aelod ar gyfer unrhyw grŵp gwleidyddol y mae'n perthyn iddo.

19. Bydd y drefn hon yn sicrhau bod pob grŵp gwleidyddol yn y Senedd yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor.

**Newidiadau Canlyniadol**

20. Yn ychwanegol at y Rheol Sefydlog 18B newydd, mae angen newid canlyniadol i Reol Sefydlog 17.10(ii). Mae'r diwygiad i 17.10(ii) yn darparu ar gyfer eithrio aelodau Pwyllgor y Llywydd wrth gyfrifo cyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau a ddyrennir i grwpiau, o ystyried y rheolau penodol ynghylch ei aelodaeth a'i swyddogaethau cul.

### **Cam i'w gymryd**

21. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i Reol Sefydlog 18 yn ffurfiol ddydd Llun 6 Gorffennaf 2020 a gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynnig yn Atodiad B.

## Atodiad A

<b>Rheol Sefydlog 18B – Goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol</b>	<b>Mewnosod Teitl Rheol Sefydlog newydd</b>  Mae teitl y Rheol Sefydlog yn gyson â'r rhai a ddefnyddir yn Rheolau Sefydlog 18 a 18A
<b>Pwyllgor y Llywydd</b>	
18B.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pwyllgor, o'r enw "Pwyllgor y Llywydd", sydd â chyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 18B.2	<b>Rheol Sefydlog newydd</b>  Mae Deddf 2020 yn diwygio Deddf 2000 i ddarparu ar gyfer sefydlu Pwyllgor y Llywydd er mwyn i'r Comisiwn Etholiadol fod yn atebol i'r Senedd o ran etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig, ac i Bwyllgor y Llywydd gymeradwyo cynlluniau gwariant y Comisiwn Etholiadol.
<b>Swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd</b>	
18B.2 Mae swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd ("y Pwyllgor") wedi'u nodi ym mharagraffau 16A, 16B, 18 ac 20B o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.	<b>Rheol Sefydlog newydd</b>

Mae'r Rheol Sefydlog yn cyfeirio at y darpariaethau penodol yn Neddf 2000 sy'n ymwneud â swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd.

Mae'r camau a ganlyn yn ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020:

- erbyn 1 Hydref bob blwyddyn, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno amcangyfrif i Bwyllgor y Llywydd o'r incwm a'r gwariant y mae'n disgwyl ei gael/ei wario ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf mewn perthynas â'i waith ar etholiadau Cymru (paragraff 16A(3));
- rhaid i Bwyllgor y Llywydd archwilio'r amcangyfrif, o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gwneud unrhyw newidiadau sy'n briodol yn ei farn gan ystyried adroddiad diweddaraf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a barn Gweinidogion Cymru (paragraffau 16A(7) ac (8));



- rhaid i Bwyllgor y Llywydd osod yr amcangyfrif gerbron y Senedd. Yna bydd y Senedd yn cymeradwyo'r amcangyfrifon fel rhan o gynnig y gyllideb flynyddol (paragraff 16A(9)).

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2000 yn caniatáu i'r Comisiwn Etholiadol adolygu amcangyfrif yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Os bydd yn gwneud hyn, bydd angen i Bwyllgor y Llywydd graffu ar yr amcangyfrif diwygiedig yn dilyn y broses a nodir uchod (paragraff 16A(4)).

Mae'n ofynnol i Bwyllgor y Llywydd gymryd y camau a ganlyn yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf 2000 hefyd:

- rhaid iddo archwilio cynllun gwaith pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol o dro i dro, o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a gwneud unrhyw newidiadau sy'n briodol yn ei farn, gan ystyried adroddiad diweddaraf y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a barn Gweinidogion Cymru. Mae'r cynllun pum mlynedd yn amlinellu nodau, amcanion ac adnoddau gofynnol y

Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o ran etholiadau datganoledig (paragraffau 16B(3) a (4));

- ar ôl craffu arno, rhaid iddo roi'r cynllun gerbron y Senedd naill ai gyda diwygiadau neu heb ddiwygiadau (paragraff 16B(5));
- caiff y Pwyllgor geisio archwiliad pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru o unrhyw gyfrifon a archwiliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (paragraff 18(3));
- rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol o'i waith gerbron y Senedd (paragraff 20B(1)).

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2000 yn darparu ar gyfer cyflwyno cynlluniau pum mlynedd i Bwyllgor y Llywydd:

- pan fydd y Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno'r amcangyfrif cyllidebol cyntaf (paragraff 16B(1)(a));
- pan fo'r amcangyfrif yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyntaf i ddechrau ar ôl y diwrnod pan fydd y Senedd yn cyfarfod yn dilyn etholiad cyffredinol arferol y Senedd (paragraff 16B(1)(b)), neu
- pan fo'r amcangyfrif yn ymwneud â blwyddyn ariannol arall ac mae Pwyllgor y Llywydd yn ei

	gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno cynllun (paragraff 16B(1)(c)).
<b>Aelodaeth Pwyllgor y Llywydd</b>	
18B.3 Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, ond dim ond wrth arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r cadeirydd bleidleisio.	<p><b>Rheol Sefydlog newydd</b></p> <p>Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (paragraff 16A(6)) yn darparu bod yn rhaid i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd gadeirio Pwyllgor y Llywydd. Cynigir y dylid cadw'r hyblygrwydd hwn yn y Rheolau Sefydlog drwy nodi y gellir enwebu'r naill neu'r llall i fod yn gadeirydd. Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig, ynghyd â datgymhwyso Rheol Sefydlog 17.37 isod, yn darparu mai dim ond wrth arfer pleidlais fwrw y caiff y cadeirydd bleidleisio yn y Pwyllgor.</p>
<p>18B.4 Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodaeth y Pwyllgor gynnig fel aelodau o'r Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i) naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd fel cadeirydd y Pwyllgor;</li> <li>ii) cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19; a</li> </ul>	<p><b>Rheol Sefydlog newydd</b></p> <p>O ystyried swyddogaeth benodol Pwyllgor y Llywydd, a'i fod yn cael ei sefydlu ar sail amhleidiol, cynigir bod yn rhaid i'r Pwyllgor gynnwys un Aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.</p>

<p>iii) un aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.</p>	<p>Er mwyn cynnal cysylltiad â'r Pwyllgor Cyllid, o ystyried ei rôl o oruchwylio'r holl faterion sy'n effeithio ar ariannu Cronfa Gyfunol Cymru neu'n ymwneud â gwariant ohoni, cynigir y dylid gwneud cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn aelod ex-officio o'r Pwyllgor.</p> <p>Ni fydd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn cynrychioli unrhyw grŵp gwleidyddol y mae'n perthyn iddo.</p>
<p>18B.5 Nid yw Rheolau Sefydlog 17.2A - 17.2T, Rheol Sefydlog 17.6(i), Rheolau Sefydlog 17.7 a 17.8, Rheolau Sefydlog 17.21 a 17.22, na Rheol Sefydlog 17.37 yn gymwys i Bwyllgor y Llywydd.</p>	<p><b>Rheol Sefydlog newydd</b></p> <p>Gan mai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd fydd yn cadeirio Pwyllgor y Llywydd, rhaid datgymhwyso'r gweithdrefnau safonol a nodir yn Rheolau Sefydlog 17.2A - 17.2T, sy'n ymwneud ag ethol cadeiryddion pwyllgorau.</p> <p>Rhaid datgymhwyso Rheolau Sefydlog 17.7 a 17.8, sy'n ymwneud ag aelodaeth pwyllgorau, oherwydd y bydd Rheol Sefydlog 18B.4 newydd yn darparu ar gyfer aelodaeth Pwyllgor y Llywydd.</p>

	<p>Rhaid datgymhwyso Rheol Sefydlog 17.21 gan na fydd cadeirydd Pwyllgor y Llywydd yn cael ei benodi o dan Reolau Sefydlog 17.2E neu 17.2T.</p> <p>Rhaid datgymhwyso Rheol Sefydlog 17.22 gan mai dim ond y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, yn unol â Deddf 2000, a gaiff gadeirio Pwyllgor y Llywydd.</p> <p>Rhaid datgymhwyso Rheol Sefydlog 17.37 gan fod Rheol Sefydlog 18B.3 newydd yn darparu mai dim ond wrth arfer pleidlais fwrw y caiff cadeirydd Pwyllgor y Llywydd bleidleisio.</p>
--	---

#### NEWIDIADAU CANLYNIADOL

<b>RHEOL SEFYDLOG 17 - GWEITHREDU PWYLLGORAU</b>	
<b>Aelodaeth Pwyllgorau</b>	
17.10 Rhaid i unrhyw gynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 neu 17.7 (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol o roi sylw i gyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau) sicrhau:	<p><b>Diwygio'r Rheol Sefydlog</b></p> <p>Mae'r diwygiad i 17.10(ii) yn darparu ar gyfer eithrio aelodau Pwyllgor y Llywydd wrth gyfrifo cyfanswm y</p>

<p>i) bod pob Aelod nad yw'n perthyn i grŵp gwleidyddol yn cael cynnig lle ar un pwyllgor o leiaf; a</p> <p>ii) bod cyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau (<u>heb gynnwys Pwyllgor y Llywydd</u>) a ddyrennir i Aelodau sy'n perthyn i bob grŵp gwleidyddol o leiaf yr un mor fawr â nifer yr Aelodau sy'n perthyn i'r grŵp gwleidyddol.</p>	<p>lleoedd ar bwyllgorau a ddyrennir i grwpiau, o ystyried y rheolau penodol ynghylch ei aelodaeth a'i swyddogaethau cul.</p>
---	---

## **Atodiad B**

### **Rheol Sefydlog 18B newydd**

18B.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pwyllgor, o'r enw "Pwyllgor y Llywydd", sydd â chyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 18B.2.

18B.2 Mae swyddogaethau Pwyllgor y Llywydd ("y Pwyllgor") wedi'u nodi ym mharagraffau 16A, 16B, 18 ac 20B o Atodlen 1 i Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

18B.3 Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, ond dim ond wrth arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r cadeirydd bleidleisio.

18B.4 Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodaeth y Pwyllgor gynnig fel aelodau o'r Pwyllgor:

- i) naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd fel cadeirydd y Pwyllgor;
- ii) cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19; a
- iii) un aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.

18B.5 Nid yw Rheolau Sefydlog 17.2A – 17.2T, Rheol Sefydlog 17.6(i), Rheolau Sefydlog 17.7 a 17.8, Rheolau Sefydlog 17.21 a 17.22, na Rheol Sefydlog 17.37 yn gymwys i Bwyllgor y Llywydd.

### **Rheol Sefydlog 17.10 wedi'i diwygio**

17.10 Rhaid i unrhyw gynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 neu 17.7 (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol o roi sylw i gyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau) sicrhau:

- i) bod pob Aelod nad yw'n perthyn i grŵp gwleidyddol yn cael cynnig lle ar un pwyllgor o leiaf; a
- ii) bod cyfanswm y lleoedd ar bwyllgorau (heb gynnwys Pwyllgor y Llywydd) a ddyrennir i Aelodau sy'n perthyn i bob grŵp

gwleidyddol o leiaf yr un mor fawr â nifer yr Aelodau sy'n perthyn i'r grŵp gwleidyddol.